**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LF/GT/0975/13

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd
a Gofal Cymdeithasol

7 Hydref 2013

Annwyl David,

Diolch am gyfarfod â mi ar 3 Hydref i drafod Adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor ar y broses o graffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fe ofynnoch i mi ddarparu mwy o wybodaeth am fy ymatebion i'ch argymhellion. Fel y nodwyd yn ystod y cyfarfod, nid yw'n ofynnol i mi ymateb i'ch adroddiad fesul argymhelliad, ond rwy'n gwerthfawrogi y bydd gwneud hynny'n ddefnyddiol i chi. I'r diben hwnnw, rwy'n amgáu tabl sy'n crynhoi fy rhesymau dros dderbyn neu wrthod eich argymhellion.

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 25 Medi, rwyf wedi derbyn argymhellion i wneud pum gwelliant y Llywodraeth. Yn ogystal, rwyf wedi derbyn argymhellion i wneud cyfres o Ddatganiadau Ysgrifenedig a Llafar er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am faterion amrywiol, yn cynnwys:

- datganiad polisi pwysig ar Asesu a Chymhwysedd cyn diwedd mis Hydref;
- datganiad ar ofal cymdeithasol i blant a fydd yn cynnwys materion fel plant anabl – mae bwriad gennyf i wneud hwn yn ddatganiad blynyddol;
- datganiad ar gyllid ar gyfer y Bil a fydd yn ategu'r datganiad a wnes eisoes a gohebiaeth i'r Pwyllgor Cyllid; a
- fy natganiad blynyddol ar ddiogelu.

Gobeithio y byddwch chi'n cytuno fy mod wedi ymateb yn gadarnhaol yn gyffredinol i'ch adroddiad. Wrth reswm, y lle mwyaf priodol i mi ymateb yn fanylach i'r argymhellion yw yn ystod y drafodaeth Cyfnod 1 ar 8 Hydref, ac rwy'n edrych ymlaen at wneud hynny.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*